

PHILIPPS, JENKIN THOMAS (bu farw 1755), athro ac awdur

Enw: Jenkin Thomas Philipps

Dyddiad marw: 1755

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: athro ac awdur

Maes gweithgaredd: Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: John James Jones

brodor o Lansawel, Sir Gaerfyrddin. Bu'n efrydydd ym Mhrifysgol Basle, yr Yswisdir, lle, yn 1707, y traddododd araith Ladin ar y testun ' Dibenion Teithio.' Cyhoeddwyd hon yn Llundain yn 1715. Yr oedd yn swyddog yn y llys brenhinol mor gynnar â 1715, pryd yr ysgrifennodd, yn Lladin a Ffrangeg, *Discours touchant l'origine et le progres de la religion chrétienne parmi la nation britannique, présenté au Roi*. Ail-gyhoeddwyd y Lladin yn *Dissertationes quatuor* (Llundain, 1735). Yr oedd yn ieithydd penigamp, ac yr oedd yn athro ieithoedd rhwng 1717 a 1720. Ysgrifennodd lyfr ar ei ddull o addysgu, yn dwyn y teitl *A compendious way of teaching ancient and modern languages* (Llundain, ail arg., 1723). Rhywbryd cyn 1726 daeth yn athro i blant y brenin Siôr II, yn cynnwys William Augustus, dug Cumberland. Ar gyfer hwnnw, ysgrifennodd amryw ramadegau a llyfrau darllen Lladin. Yn ychwanegol at lawer araith Ladin ar destunau diwinyddol ac eglwysig, cyhoeddodd amryw lyfrau Saesneg ar wahanol destunau, megis cyfreithiau a llywodraeth Denmark, a bywgraffiadau o bersonau brenhinol. Yn ei ewyllys gadawodd £60 y flwyddyn tuag at gynnal ysgol rydd yn ei blwyf genedigol, ond bu farw 22 Chwefror 1755 cyn arwyddo'r ewyllys.

Awdur

John James Jones, (1892 - 1957)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography, a'r awdurdodau a enwir yno

Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol (1875)

British Museum. Catalogue of Printed Books (1882)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [244610350](#)

Wikidata: [Q18731141](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

